CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN SIAMBR TŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 19 GORFFENNAF 2022 AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd E.M. Aldworth – Maer
Y Cynghorydd M. Adams – Dirprwy Faer

Y Cynghorwyr:
A. Angel, C. Andrews, C. Bishop, A. Pettit-Broughton, M. Chacon-Dawson, R. Chapman, P. Cook, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, D.T. Davies (MBE), N. Dix, G. Ead, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Forehead, E. Forehead, J. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, D. Harse, T. Heron, A. Hussey, D. Ingram-Jones, M. James, L. Jeremiah, G. Johnston, J. Jones, A. Leonard, P. Leonard, C. Mann, A. McConnell, B. Miles, C. Morgan, S. Morgan, B. Owen, T. Parry, M. Powell, D. Preece, H. Pritchard, J. Pritchard, J.A. Pritchard, J. Reed, J. Roberts, J. Sadler, R. Saralis, J. Simmonds, E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, L. Whittle, S. Williams, W. Williams, J. Winslade, K. Woodland, C. Wright.

.

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Cofforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu), N. Taylor-Williams (Prif Swyddog Tai), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), L. Allen (Prif Gyfrifydd Grŵp), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

Hefyd yn Bresennol: -

G. Rees (Ysgol Gynradd Cwm Ifor), M. Lewis ac L. Jarvis (Ysgol Gyfun Martin Sant), D. Biddle, L. Jollifee, C. Mason, K. Sprackling-Jones, Lee Pinney, M. Osborn, R. Holden ac C. Edwards

TREFNIADAU RECORDIO, FFILMIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch yma i'w wylio. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Elsbury, G. Enright, S. Kent, L. Phipps, D. Price, J. Rao, J. Scriven, S. Skivens.

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cadarnhaodd y Maer ei bod, ers ei hurddo, wedi cyflawni nifer eithaf sylweddol o ddigwyddiadau yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Cyfeiriwyd yn benodol at ei phresenoldeb mewn cynhyrchiad o Legally Blonde yn Ysgol Gyfun Martin Sant. Cyfeiriodd y Maer yn arbennig at gi'r ysgol, 'Marty', a gymerodd ran mewn dwy rôl yn y cynhyrchiad rhagorol.

3. CAEL DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Nid oedd unrhyw ddeisebau.

4. CYFLWYNO GWOBRAU

Gwobrau Ysgol ac Addysg 2022 y South Wales Argus

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ei phleser o gael croesawu Gareth Rees o Ysgol Gynradd Cwm Ifor a Lee Jarvis o Ysgol Gyfun Martin Sant, a gafodd lwyddiant yn ddiweddar yng Ngwobrau Ysgol ac Addysg y South Wales Argus, a gynhaliwyd ym mis Ebrill eleni.

Enillodd Ysgol Gynradd Cwm Ifor Wobr Ysgol Gynradd y Flwyddyn, gyda 3 aelod staff hefyd yn ennill yng nghategori Gwobr yr Ail Filltir. Enillodd Ysgol Gyfun Martin Sant gategori Gwobr Ysgol Uwchradd y Flwyddyn, gan fynd ymlaen hefyd i ennill Gwobr Ysgol y Flwyddyn. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod Lee Jarvis wedi ennill Gwobr Pennaeth y Flwyddyn hefyd. Cydnabu'r gwobrau hyn waith caled pob aelod o staff, a weithiodd gyda'i gilydd er budd eu holl ddisgyblion. Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Cyngor ymuno â hi i ddiolch iddyn nhw am eu hymroddiad a'u hymrwymiad i ddarparu addysg ragorol ac annog disgyblion i wneud eu gorau bob amser.

Croesawodd y Maer Mr Jarvis a Mr Reed i'r Cyngor a gofynnodd i Aelodau ymuno â hi i'w llongyfarch ar waith rhagorol y ddwy ysgol hyn a'u llongyfarch nhw ar y campau rhagorol hyn.

Gwobrau Exemplar GeoPlace 2022

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ei phleser o gael croesawu 2 dîm o'r Awdurdod sydd wedi cael eu gwobrwyo yng Ngwobrau Exemplar GeoPlace 2022. Rhoddwyd gwybod i'r cyngor bod y Tîm Rheoli Cyfeiriadau, yn cynnwys Lee Pinney, Myra Osborn a Rachel Holden, wedi ennill Gwobr Blatinwm ar gyfer Data Cyfeiriadau a, hefyd, rhoddwyd Gwobr Blatinwm i'r Uwch Beiriannydd Gweithrediadau Cymwysiadau, Kathryn Sprackling-Jones, am Reoli Data Strydoedd.

Croesawodd y Maer Lee Pinney, Myra Osborn, Rachel Holden a Kathryn Sprackling-Jones i'r Cyngor a gofynnodd i'r Aelodau ymuno â hi i'w llongyfarch nhw ar waith eithriadol y Tîm rhagorol hwn.

Gwobr Regina Kibel 2021

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd ei phleser o gael croesawu Daniel Biddle o'r Tîm Gwasanaethau Masnachol mewn Safonau Masnach, y dyfarnwyd Gwobr Regina Kibel 2021 iddo. Hysbyswyd y Cyngor fod Daniel wedi ennill cymhwyster Diploma Ymarferwr Safonau Masnach (Cam 2) ar Fframwaith Cymhwysedd Proffesiynol y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig ym mis Gorffennaf 2021, gan gyflawni'r marc cyfartalog uchaf ymhlith ei gymheiriaid. Dyma gamp aruthrol, yn enwedig o gofio'r heriau a wynebodd ef a llawer o bobl eraill, gyda diffyg addysgu wyneb yn wyneb sylweddol yn ystod y pandemig.

Croesawodd y Maer Mr Biddle i'r Cyngor a gofynnodd i Aelodau ymuno â hi i longyfarch Daniel ar ei lwyddiant.

Cystadleuaeth Genedlaethol Cogydd Ysgol y Flwyddyn LACA

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ei phleser o gael croesawu Clair Edwards, Cogydd Ysgol yn Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd, a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth genedlaethol Cogydd Ysgol y Flwyddyn LACA.

Cynghorwyd y Cyngor fod Clair, yn y rownd derfynol, wedi gweini Sgiwer Selsigen Quorn ludiog fendigedig yn y dosbarth 'Grab and Go', yna bara chapatti wedi'i lenwi, wedi'i weini gyda reis blodfresych â garlleg a choriander, a gorffennodd y pryd gyda phwdin mefus a leim blasus tu hwnt.

Croesawodd y Maer Clair i'r Cyngor a gofynnodd i Aelodau ymuno â hi i longyfarch Clair ar y gamp arbennig hon.

5. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

6. COFNODION – Y CYNGOR – 12 EBRILL 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 22 (cofnodion 1-10) fel cofnod cywir.

7. COFNODION – Y CYNGOR BLYNYDDOL 19 MAI 2022

Yn amodol ar ddiwygiad i Aelodau'r Panel Apeliadau, sef y dylai ei gyfansoddiad gynnwys y Cynghorwyr B. Miles, W. Williams, a G. Enright, a nodi bod y Cynghorydd P. Leonard wedi'i hepgor o'r Ymddiheuriadau am Absenoldeb, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod 19 Mai 2022 fel cofnod cywir.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y Cyngor Blynyddol a gynhaliwyd ar 19 Mai 2022 (cofnodion 1-21) fel cofnod cywir.

8. CAEL AC ATEB CWESTIYNAU A RODDWYD O DAN REOL GWEITHDREFN 10(4)

Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, y Cynghorydd E. Stenner, gan y Cynghorydd K. Etheridge.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad i'r Cynghorydd K. Etheridge

Byddai bai arnaf pe na bawn i'n sôn pam mae'r gronfa hon wedi cael ei thanwario. Fel yr esboniwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 23 Mehefin 2022, mae sawl rheswm pam na fyddai rhai wardiau wedi manteisio ar eu hawl i Gronfa Ymrymuso'r Gymuned. Rhaid i ni gofio na wnaeth llawer o'n grwpiau gwirfoddol gyfarfod yn ystod y pandemig ac, yn sicr, roedd byd newydd yn eu cyfarch nhw wrth ddod allan o bandemig byd-eang. Ni fu newid i feini prawf y gronfa. Bydd pob Aelod yn gwybod nawr bod bwriad cynnal tri seminar i gynorthwyo Aelodau hen a newydd, gyda gwybodaeth i'w helpu wrth ymgysylltu â grwpiau cymunedol i roi gwybod pa fuddion y gall yr arian hwn ei gynnig. Fodd bynnag, rhaid i mi bwysleisio nad yw'r un gymuned wedi colli arian, bydd unrhyw danwario'n cael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn

bresennol ac rwy'n hyderus y bydd yr holl Gynghorwyr yn gweithio'n galed, gan ymgysylltu â'u cymunedau dros y misoedd i ddod. Caiff y gronfa ei monitro'n rheolaidd a bydd Swyddogion wrth law i roi unrhyw gyngor y gall Aelodau ddymuno'i gael.

Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd, y Cynghorydd J. Pritchard gan y Cynghorydd A. McConnell.

A all yr Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd esbonio beth sy'n cael ei wneud i gynorthwyo busnesau a chanol trefi?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd i'r Cynghorydd A. McConnell.

Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud popeth posibl i gynorthwyo busnesau a gwella canol ein trefi. Ar anterth Covid, fe wnaethon ni sicrhau fod cyfanswm gwerth £64m o grantiau cysylltiedig â Covid yn cael eu dosbarthu gan y Tîm Busnes, Menter ac Adnewyddu. Yn sgil diddymu'r cyfyngiadau, mae angen i ni newid ein ffocws trwy amrywiaeth o fesurau gwahanol.

Rydyn ni wedi newid ein dull o ymgysylltu â busnesau. Yn lle cyfarfodydd Grwpiau Rheoli Canol y Dref gynt, rydyn ni bellach yn cynnal digwyddiadau brecwast/gyda'r nos sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth a chyfleoedd rhwydweithio. Trwy gynnal y digwyddiadau'r tu hwnt i'r diwrnod gwaith, mae perchnogion/cynrychiolwyr busnes yn fwy tebygol o allu mynychu heb effeithio ar weithredu eu busnes. Cynhelir y digwyddiadau mewn lleoliadau mwy hygyrch i fasnachwyr ym mhob tref unigol. Hyd yn hyn, rydyn ni wedi cyfarfod â masnachwyr o Ystrad Mynach a Choed Duon. Bydd Bargod, Caerffili a Rhisga yn dilyn yn fuan. Rwyf wedi trefnu cyfarfodydd â swyddogion ar ôl y digwyddiadau, fel y gallaf ôl-drafod y pwyntiau gweithredu a godwyd yn y cyfarfodydd. Hefyd, rwyf wedi gallu rhoi diweddariad i rai o'r busnesau a'r cynghorwyr lleol a fynychodd y cyfarfodydd.

Mae cael presenoldeb mwy gweledol yng nghanol y dref yn bwysig. Felly, rwy'n falch y byddwn ni'n cyflogi Rheolwr Canol Trefi a staff cymorth fis nesaf. Mae parhau i ymgysylltu â busnesau o ddydd i ddydd yn rhywbeth y mae arweinwyr corfforaethol a gwleidyddol y weinyddiaeth hon yn canolbwyntio arno.

Er bod ymgysylltu â busnes yn bwysig, felly hefyd y mae buddsoddi. Trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, rydyn ni wedi penderfynu gwneud rhai ymyriadau wedi'u targedu yng nghanol ein trefi. Fis diwethaf, cytunodd y Cabinet i sefydlu Timau Ymateb Trefol i ddelio â materion archwilio canol trefi yn y pum prif ganol tref. Hefyd, fe gytunom ni i greu cyllideb weithredol i Dimau Ymateb Trefol. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o adnoddau'n cael eu darparu i'r rheng flaen, lle mae trigolion yn ymweld yn rheolaidd.

Fis diwethaf, cytunodd y Cabinet i ehangu Cronfa Fenter Caerffili yn sylweddol. Bydd y buddsoddiad ychwanegol o £1 miliwn i fusnesau'n golygu bod mwy o fusnesau'n gallu cael gafael ar y cyllid grant i gynorthwyo eu datblygiad nhw, sy'n arbennig o hanfodol yn ystod y cyfnod hwn o bwysau costau a chwyddiant cynyddol.

Mae angen i'n dull ni o gynorthwyo busnesau a gwella canol ein trefi fod yn gysylltiedig. Mae hyn yn golygu peidio â bod ofn gwneud penderfyniadau a chael gweledigaeth glir o'n nod ni yn y tymor byr, canol a hwy.

ADRODDIADAU SWYDDOGION

9. HYSBYSIAD O GYNNIG – TORIADAU'R LLYWODRAETH

Ystyriwyd yr hysbysiad o gynnig a ddaeth oddi wrth y Cynghorydd Sean Morgan.

Nodwyd bod y Maer wedi cytuno i'r Cyngor ddelio â'r cynnig heb iddo gael ei ystyried yn y lle cyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu er mwyn bwrw ymlaen â busnes.

Gofynnodd y cynnig i'r Cyngor ysgrifennu i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ran Aelodau Etholedig i ofyn am gynnydd llawn mewn cymorth cyllid i Awdurdodau Lleol, yn gymesur â chynnydd termau real i staff, er mwyn adfer rhywfaint o gynaliadwyedd i'r system. Oherwydd heb broffesiynoldeb ac ymroddiad ein staff, ni fyddai gwasanaethau'r Cyngor y mae ein trigolion yn dibynnu arnyn nhw'n cael eu darparu.

I gynorthwyo ei gynnig, amlinellodd y Cynghorydd Morgan gefndir y cynnig a gofynnodd i'r Cyngor nodi bod y Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi amlygu gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig o bron 60% i Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr rhwng 2010 a 2020. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, Cynghorau sydd wedi arwain y ffordd yn yr ymdrechion yn erbyn pandemig Covid-19, gan ddarparu amrywiaeth enfawr o wasanaethau a chymorth i gymunedau, gan beri risg iddyn nhw eu hunain yn aml, ac maen nhw wedi dangos pa mor anhepgor yw Llywodraeth Leol. Ond mae hyn hefyd wedi arwain at gynnydd enfawr mewn gwariant a cholli incwm ac, wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae angen mwy o gymorth ariannol o lawer ar Awdurdodau Lleol ac ysgolion gan San Steffan.

Mae gweithlu Llywodraeth Leol wedi wynebu blynyddoedd o gyfyngiadau ar gyflog ac, erbyn hydref 2017, roedd cyflogau'r sector cyhoeddus ar ei hôl hi o gymharu â chyflog y sector preifat am waith tebyg. Gyda staff yn wynebu'r argyfwng costau byw gwaethaf mewn cenhedlaeth, mae llawer yn wynebu dewis rhwng bwyd neu wres.

Amlygodd y Cynghorydd Morgan fod yr Cyd-undebau Llafur yn cefnogi'r hysbysiad o gynnig.

Rhoddodd y Cynghorydd Whittle, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru, wybod i'r Cyngor y byddai ei Grŵp yn cefnogi'r hysbysiad o gynnig, ond meddyliodd tybed a oedd llythyr yn gynrychiolaeth ddigon cryf i'w gwneud oherwydd gellid ei anwybyddu'n hawdd. Cynigiodd y Cynghorydd Whittle y byddai dirprwyaeth hollbleidiol i Lundain yn ffordd well o symud hwn yn ei flaen ac awgrymodd y gellid cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i arwain dirprwyaeth o'r fath i Lundain ar ran pob un o'r 22 Awdurdod. Cydnabu'r Aelod na ellid gwarantu cyfarfod wyneb yn wyneb â'r Gweinidog, ond y byddai'n sicr yn dangos cryfder y teimlad cyffredin.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Etheridge, fel Arweinydd Grŵp yr Aelodau Annibynnol, y byddai ei Grŵp hefyd wedi cefnogi'r cynnig yn ffurfiol pe bai wedi cael ei gyflwyno i bob grŵp ac y bydden nhw'n cefnogi ei gynigion.

Diolchodd y Cynghorydd Morgan i'r Arweinwyr Grŵp a'r Aelodau am eu cefnogaeth a theimlai mai llythyr yn y lle cyntaf oedd y ffordd orau o ddechrau o ran dirprwyaeth. Pe ellid trefnu cyfarfod â'r Gweinidog wedyn, yna gellid ystyried dirprwyaeth drawsbleidiol bryd hynny.

Trwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar ac, wrth nodi bod 57 o blaid ac 1 yn ymatal, datganwyd bod y cynnig wedi'i dderbyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD bod yr Hysbysiad o Gynnig yn cael ei gefnogi.

10. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2022/23

Nododd y Cyngor fod y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio eisoes wedi ystyried yr adroddiad ar 15 Mawrth 2022 a bod y Cabinet wedi'i ystyried ar 23 Mawrth 2022.

Ystyriwyd yr adroddiad, a roddodd wybod i'r Cyngor am y gofyniad blynyddol i gyflwyno Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai i Lywodraeth Cymru a cheisiodd gymeradwyaeth y Cyngor i ymestyn cap y Cyfrif Refeniw Tai ar fenthyca i £90M er mwyn caniatáu i'r rhaglen adeiladu newydd fynd yn ei blaen.

Cynghorwyd Aelodau fod yn rhaid cyflwyno'r Cyfrif Refeniw Tai i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r cyflwyniad am grant cyllid y Lwfans Atgyweirio Mawr. Nodwyd y byddai methu â chyflwyno Cynllun Busnes hyfyw'n rhan o'r cynllun yn cael ei ystyried fel methiant i gydymffurfio â meini prawf grant y Lwfans Atgyweirio Mawr ac y byddai'r grant yn cael ei dynnu'n ôl, yn ôl pob tebyg. Nododd y Cyngor fod y Cynllun Busnes yn gynllun 30 mlynedd hirdymor ar gyfer rheoli asedau'r sefydliad a chyllido'r buddsoddiadau angenrheidiol. Mae'n elfen allweddol o sicrhau rheolaeth hirdymor effeithiol ar Stoc Tai'r Cyngor, a chynnal a chadw'r Stoc hwnnw, ac yn ei hanfod, mae'n rhagolwg ariannol sy'n dibynnu ar dybiaethau allweddol sy'n nodi'r adnoddau a'r cyllid gofynnol i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru a chynnal y safon honno o hynny ymlaen.

Nodwyd bod y proffil benthyca wedi'i ddiwygio yn 2019 i gynnwys cyllid ar gyfer drafft cyntaf rhaglen adeiladu newydd uchelgeisiol y Cyngor. Yn sgil cyflawni targed bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer yr holl stoc cymwys, roedd yn gyfle perffaith i roi gwybod am Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a pharhau i wneud hynny'n flynyddol o hyn ymlaen wrth i'r Cyngor symud ymlaen i ddatblygu ei stoc tai cymdeithasol ei hun. Mae hyn wedi dod yn fwy pwysig o ystyried yr anwadalrwydd yn y farchnad o ran costau deunyddiau, cyflenwadau ac adnoddau llafur, a allai effeithio'n sylweddol ar ymrwymiadau adeiladu newydd a'r agenda datgarboneiddio uchelgeisiol.

Cynghorwyd y Cyngor fod y lefel fenthyca yn £75 miliwn ar hyn o bryd, sef £45 miliwn yn ôl amcan ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru a £30 miliwn ar gyfer y buddsoddiad cychwynnol mewn cynyddu'r cyflenwad tai, ond nodwyd bod hyn yn debygol o gynyddu £11.5 miliwn wrth i nifer yr adeiladau arfaethedig gynyddu i 175 o gymharu â'r cynllun blaenorol.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch yr effaith y byddai'r model rhent byw yn ei chael ar denantiaid Caerffili, yn enwedig y rhai ag incwm isel na fydden nhw'n cael budd-dâl tai ac a allai weld cynnydd o 83% mewn rhent, a mynegwyd pryder bod llawer o deuluoedd Caerffili yn byw mewn tlodi oherwydd yr argyfwng costau byw personol, gyda rhai'n dibynnu ar fanciau bwyd ac yn gorfod dewis rhwng rhent, gwres a bwyd. Holodd yr Aelod ai'r model rhent byw yw'r dull gorau sydd ar gael ac a ellid rhoi cynnig ar hyn yn y lle cyntaf fel arbrawf dros gyfnod penodol, i weld a oedd yn gweithio.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Dai y byddai'n hapus i anfon manylion llawn y model rhent byw at yr Aelod ar ôl y cyfarfod a chadarnhaodd bod y cynnig i fabwysiadu'r model rhent byw wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol yn y cam craffu.

Cyfeiriwyd at adran 5.5 yr adroddiad a bod Cartrefi Caerffili'n defnyddio dull model a fabwysiadwyd gan Capita; gofynnodd yr Aelod am gopi o'r crynodeb o'r achos busnes. Yna, cyfeiriodd yr Aelod at adran 5.12 yr adroddiad, a gyfeiriodd at y cyngor gan Lywodraeth Cymru fod awdurdodau lleol yn defnyddio 2% fel cyfradd chwyddiant nodweddiadol a mynegodd bryder o ystyried y cynnydd anwadal mewn chwyddiant sydd i'w weld ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y byddai'n anfon yr wybodaeth honno at yr Aelod yn dilyn y cyfarfod.

Yna, ceisiwyd eglurhad ynghylch y costau ynni blynyddol amcangyfrifedig ar gyfer y system tai goddefol newydd y mae'r Cyngor wedi'i chyflwyno yn ei gartrefi newydd, gan y byddai hyn yn

cynnig fforddiadwyedd ynni mawr ei angen. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at gartrefi newydd a adeiladwyd yn Nhretomos yn ddiweddar a chadarnhaodd fod y dyfynbris ar gyfer cost gwresogi blynyddol un o'r fflatiau hynny rhwng £90 a £100. Er, darparwyd y ffigur hwn rhyw flwyddyn yn ôl.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a, thrwy Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

> PENDERFYNWYD cymeradwyo'r estyniad i gap y Cyfrif Refeniw Tai ar fenthyca i £90M er mwyn caniatáu i'r rhaglen adeiladu newydd fynd yn ei blaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:00 pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnyn nhw ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 4 Hydref 2022, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

_____

MAER